# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(31)v5

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Llywodraethu Addysg Bellach (30 munud)**

**5. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Gorchymyn i ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (30 munud)**

**6. Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011 (15 munud)**

**NDM4855 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2011.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011
Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Adroddiad

**7. Dadl ar Fanteision Rhannu Gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Bersonol (60 munud)**

**NDM4856 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, gyda chymorth technoleg, yn hanfodol er mwyn cwrdd ag amcanion 'Law yn Llaw at Iechyd' a sicrhau'r newid i'r system sy'n angenrheidiol er mwyn darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chynaliadwy sy'n gwella canlyniadau, yn cefnogi pobl mewn angen ac yn darparu gofal yn agos at y cartref.

**Dogfen Ategol**
Gallwch weld 'Law yn Llaw at Iechyd' drwy ddilyn y linc a ganlyn:
[http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/together/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/together/?skip=1&lang=cy)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd cynigion cyllideb ddrafft cyfredol Llywodraeth Cymru yn methu â rhoi digon o gyllid ar gyfer caffael systemau technoleg i fanteisio'n llawn ar rannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, er mwyn cynyddu manteision rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso'r broses o ymgorffori hanes gwasanaeth cyn-filwyr yn eu cofnodion meddygol.

**8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) (15 munud)**

**NDM4857 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gontractau cyhoeddus yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r

Cyffredin ar 30 Mehefin 2010, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dogfennau Ategol**
Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Hydref 2011 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.(ii)

Y Pwyllgor Menter a Busnes: Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegwch fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Senedd y DU wedi newid enw'r Bil i’r Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) drwy ei ddiwygio ar 18 Hydref 2011.

I weld copi o’r Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) ewch i: http://services.parliament.uk/bills/2010-11/publicservicessocialvalue.html

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2011